Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn
Heol y Bardd, Porth Tywyn,
Sir Gaerfyrddin SA16 0NL
Ffôn:- 01554 832101
Ebost: admin@parcytywyn.ysgolccc.cymru
www.ysgolparcytywyn.co.uk
Pennaeth / Headteacher : Mrs A Williams

11.04.2024

# Maes Parcio

Annwyl rieni a gofalwyr,

Yn dilyn adolygiad o'n gweithdrefnau rheoli traffig, hoffwn rannu'r gweithdrefnau canlynol i sicrhau mynediad diogel i'r ysgol ac oddi yno. Pwrpas y weithred hon yw sicrhau amgylchedd diogel i blant a rhieni / gwarcheidwaid sy'n teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yn ddyddiol.

Gofynnwn yn garedig i chi beidio â theithio'n gyflymach na 5 milltir yr awr ar dir yr ysgol ac i beidio a gollwng eu plentyn yng nghanol yr hewl un ffordd wrth aros i ddod o hyd i lef i barcio.

**Ni chaniateir i rieni barcio ym maes parcio'r staff** - mae rhieni i ddefnyddio'r maes parcio mawr. Gyrrwch yn ddiogel ac yn araf ger yr ysgol a pheidiwch â pharcio mewn ardaloedd sy'n rhwystro llif y traffig.

**Parcio i'r anabl** - Os ydych chi'n ddeiliad bathodyn glas ac yn ymweld â'r ysgol, mae bae parcio dynodedig i'r anabl ar y chwith wrth i chi fynd i mewn i faes parcio'r ysgol. Gofynnwn yn garedig i chi beidio â defnyddio'r cilfachau hyn oni bai bod gennych fathodyn glas dilys.

**Cyfrifoldeb rhieni** - Dylai disgyblion aros gyda'u rhieni / gwarcheidwaid wrth fynd i'w ceir. Ar ôl i'r plant gael eu trosglwyddo gan y staff i'w rhieni ar ddiwedd y dydd, eich cyfrifoldeb chi wedyn yw sicrhau eu diogelwch.

**Cadwch at y prif balmant a chroeswch y maes parcio trwy'r groesfan Sebra / prif lif yng nghanol y maes parcio**. Mae llawer o blant a rhieni yn croesi'r heol/ ffordd mewn manau peryglus! Mae ceir hefyd yn parcio'n anystyriol neu ar linellau igam-ogam a gall hyn achosi problemau gwelededd i gerddwyr o bob oed sy'n croesi'r ffordd!

**Rydym wedi derbyn cwynion gan drigolion am barcio y tu allan i'r ysgol a'r strydoedd cyfagos.** A allech sicrhau os gwelwch yn dda nad ydych yn rhwystro'r trigolion leol rhag dod i mewn neu adael eu cartrefi pan fyddwch chi'n dod â'ch plentyn / plant i'r ysgol neu'n eu casglu. **PEIDIWCH Â PARCIO DROS DREIF Y PRESWYLWYR AR UNRHYW ADEG neu ar y tro ar waelod Woodbrook a Burrows Terrace.** Nid yw parcio ar draws tramwyfeydd preswylwyr yn dderbyniol.

Rwy'n deall ei bod yn brysur yn ystod amseroedd gollwng a chasglu ac y gall parcio, fel yn y mwyafrif o ysgolion, fod yn anodd, ond mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i sicrhau diogelwch plant, rhieni, staff ac ymwelwyr o amgylch maes parcio'r ysgol. Mae diogelwch disgyblion yn hollbwysig ac rydym yn gofyn yn garedig am gydweithrediad pawb ar y mater.

Yr Eiddoch,

A Williams

Pennaeth / *Headteacher*